# Y Pwyllgor Busnes BC(3)01-07

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 12 Mehefin 2007
**Amser:** 9.00 a.m.
**Lleoliad:** Ystafell Gynadledda C

### Aelodau Cynulliad yn bresennol

Dafydd Elis-Thomas, Y Llywydd (Cadeirydd)
Jane Hutt, Y Gweinidog â chyfrifoldeb am Fusnes y Llywodraeth
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru
William Graham, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig
Kirsty Williams, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

### Officials in Attendance

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad
Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes
Marion Stapleton, Uned Fusnes y Cynulliad
Marc Wyn Jones, Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes
Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol
**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau 2. Trefniadau Gweinyddol - BC(3)01-07(p1)** 2.1 Cytunodd y pwyllgor, drwy gyfrwng penderfyniad, i gwrdd yn breifat i drafod sut y dylid trefnu busnes y Trydydd Cynulliad, yn unol â Rheol Sefydlog 11.9. 2.2 Dywedodd y cadeirydd y byddai'r pwyllgor yn cwrdd yn gyhoeddus i drafod materion trefniadol. Byddai'r cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnal ar sail ad hoc a byddent yn ddarostyngedig i'r gweithdrefnau arferol ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus. 2.3 Cytunodd y pwyllgor y byddai cofnodion cyfarfodydd preifat yn cael eu cyhoeddi yn Saesneg ac yn Gymraeg, chwe wythnos ar ôl pob cyfarfod. **3. Busnes i ddod Busnes yr Wythnos Hon - BC(3)01-07(p2)** 3.1 Bu'r pwyllgor yn nodi'r busnes ar gyfer 12 a 13 Mehefin 2007. **Amserlen 3-wythnos Busnes y Llywodraeth - BC(3)01-07(p3)** 3.2 Bu'r pwyllgor yn nodi amserlen 3-wythnos busnes y Llywodraeth. **Amserlen 3-wythnos Busnes Heblaw Busnes y Llywodraeth - BC(3)01-07(p4)** 3.3 Cytunodd y pwyllgor ar yr amserlen 3-wythnos ar gyfer busnes heblaw busnes y Llywodraeth. Dywedodd y cadeirydd y byddai'r pwyllgor yn penderfynu ar yr amseroedd a fyddai'n cael eu caniatáu ar gyfer busnes heblaw busnes y Llywodraeth, yn hytrach na'r cynnwys. **Amserlen Gyfnodol Drafft - BC(3)01-07(p5)** 3.4 Bu'r pwyllgor yn nodi'r amserlen gyfnodol drafft. Cytunodd y pwyllgor ar y dyddiadau toriad posibl ac y byddai'r wybodaeth yn y ddogfen yn cael ei defnyddio gan y Swyddfa Gyflwyno i wneud trefniadau ynglŷn â chwestiynau llafar. **Hysbysiad o Bwyllgor Rhanbarth o dan Reol Sefydlog 20 - BC(3)01-07(p6)** 3.5 Bu'r pwyllgor yn nodi'r papur ar hysbysiad o Bwyllgor Rhanbarth y Gogledd o dan Reol Sefydlog 20. Cytunodd y pwyllgor i ystyried y mater ar y cyd â phwyllgorau craffu a phwyllgorau sefydlog y Cynulliad. **4. Unrhyw fater arall**
**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**